# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Hydref 2021

Amser: 11.08 - 14.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12441

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant<br>Dr Chris Jones, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Irfon Rees, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sarah Hatherley (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 - trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Oherwydd yr amserlenni adrodd, cytunodd yr Aelodau i drafod y gwelliannau terfynol yn electronig.

## 2 Blaenoriaethau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - strategaeth ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

2.1 Trafododd y Pwyllgor y strategaeth ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

2.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal grwpiau ffocws wyneb yn wyneb gyda phlant mewn ysgolion cynradd a chwrdd â phobl ifanc o wahanol fudiadau ieuenctid o bob rhan o Gymru.

## 3 Trafod dull cynllunio strategol y Pwyllgor

3.1 Trafododd y Pwyllgor y dull cynllunio strategol.

3.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal y sesiynau cynllunio strategol dros ddau gyfarfod, gyda'r cyntaf o'r rhain yn cael ei gynnal ddydd Llun 18 Hydref, a'r cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd fel bod y Pwyllgor yn gallu ystyried yr ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc.

3.3 Nododd yr Aelodau yr hyn yr hoffent ganolbwyntio arno yn ystod y sesiynau.

## 4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

4.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.

## 5 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

5.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

5.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Jones AS, nid oedd dirprwy ar ei rhan.

5.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 6 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

6.1 Aeth y Pwyllgor ati i graffu ar y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion.

6.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu’r canlynol:

- yr adroddiadau manwl y mae’r Grŵp Llywio Gwasanaethau Hanfodol wedi’u llunio mewn perthynas â meysydd penodol i nodi i ba raddau y cafodd gwasanaethau hanfodol eu cynnal yn ystod y pandemig;

- nodyn yn cynnwys data am y gwahanol fathau o raglenni brechu ar gyfer plant a phobl ifanc;

6.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i roi mwy o fanylion am y cynnydd sy'n cael ei wneud i wella iechyd plant ar draws ystod o faterion iechyd cyhoeddus.

## 7 Papurau i’w nodi

7.1 Nodwyd y papurau.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod cyfan ar 18 Hydref

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Trafod y dystiolaeth o'r sesiwn graffu gyda'r Gweinidogion

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth flaenorol.